

DISGRIFIAD O'R RÔL CADEIRYDD Y PWYLLGOR

Noder/Nodwch: mae yna ddisgrifiad rôl ar wahân ar gyfer Cadeirydd y Cyngor sy'n nodi dyletswyddau penodol ychwanegol ar gyfer y rôl honno.

Trosolwg o'r Swydd

- Gweithio gyda'r Pwyllgor i gynnal ei fusnes yn effeithlon ac yn effeithiol ac o fewn fframwaith cyfansoddiadol, rhwymedigaethau statudol a rheoleiddiol y Brifysgol.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Hwyluso ymddygiad effeithiol y pwyllgor drwy gyfrannu'n weithredol at gynllunio'r cylch busnes a threfnu cyfarfodydd, a thrwy fynychu rhag-gyfarfodydd a briffiau lle bo angen i drafod materion sy'n ymwneud ag ymddygiad, busnes neu aelodaeth y cyfarfod.
2. Cadeirio cyfarfodydd y Pwyllgor, gan sicrhau bod aelodau'n cael gwrandawriad teg, bod busnes yn cael ei gynnal mewn modd trefnus ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog (Ordinhad 3) a bod penderfyniadau'r pwyllgor yn cael eu mynegi'n glir.
3. Cymeradwyo llofnodi cofnodion cyfarfod a gadarnhawyd yn electronig fel cofnod ffurfiol.
4. Sicrhau bod atebolrwydd am weithredu camau y cytunwyd arnynt o gyfarfodydd blaenorol.
5. Gwneud penderfyniadau brys y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor, ar ran y Pwyllgor, yn unol â phwerau dirprwyedig a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.
6. Cynorthwyo gyda chynllunio olyniaeth ar gyfer y Pwyllgor a chefnogi penodi aelodau newydd.
7. Rheoli unrhyw faterion arfaethedig ynghylch annibyniaeth neu wrthdaro a godir i'r Cadeirydd, gyda chynngor gan Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol.
8. Cymryd rhan fel aelod 'ex-officio' o Bwyllgorau eraill, fel y manylir yn yr Ordinhadau a chyfansoddiadau perthnasol y Pwyllgorau.
9. Cynnal perthynas waith gadarnhaol gyda Chadeirydd y Cyngor, Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol ac ysgrifennydd y pwyllgor.
10. Gweithredu'n deg ac yn ddiduedd bob amser er budd Prifysgol Caerdydd yn ei chyfanrwydd, gan ddefnyddio barn annibynnol a chynnal cyfrinachedd fel y bo'n briodol.
11. Gweithredu yn unol â'r safonau ymddygiad derbynol mewn bywyd cyhoeddus a dilyn y safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol.

Cefnogaeth a Chyngor Annibynnol

Mae gan Gadeirydd Pwyllgor yr hawl i ofyn am gyngor a gwasanaethau Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Cwnsler Cyffredinol neu'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau.

Uwchgyfeirio Pryderon

Dylai Cadeirydd Pwyllgor godi unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad aelodau pwyllgor yn unol â'r Rheolau Sefydlog (Ordinhad 3) ac unrhyw faterion eraill yn ymwneud ag aelodaeth gyda Chadeirydd y Pwyllgor Rhieni. Lle bo'r pryder yn ymwneud â Chadeirydd y Cyngor, gellir codi'r mater gyda'r Uwch Lywodraethwr Annibynnol.